CYNGOR CYMUNED
LLANSTEFFAN A LLANYBRI
COMMUNITY COUNCIL

ADRODDIAD CYNGHORYDD SIR
21ain CHWEFROR 2022

COUNTY COUNCILLOR'S REPORT
FEBRUARY 21st 2022

CYLLIDEB CYNGOR SIR 2022/23:

Er pwysau ariannol anferth ac unigryw, mae disgwyl y bydd y cynydd yn y Dreth Gyngor eleni yn 2.5% - hanner y cyfradd chwyddiant ar hyn o bryd. Mae pobl yn wynebu cryn galedi, felly 'rydym yn benderfynnol o gadw'r cynydd yn y dreth at y lleiafswm posib, heb orfod gwneud toriadau llym i wasanaethau. Mae hyn yn hynod o anodd tra bod y pwysau ariannol a wynebwn yn ystod y pandemig yn ddigynsail.

Mae chwyddiant yn 5.4% ar hyn o bryd ac ar gynydd. Mae codiadau cyflogau staff wedi eu cyllidebu ar 4%. Mae costau tanwydd i wresogi ysgolion, cartrefi preswyl ac adeiladau eraill, ac i yrru cerbydau sbwriel ac yn y blaen, yn debygol o gynyddu rhyw 20%. Ar ben hyn, bydd cynydd llywodraeth y D.U. o 1.25 pwynt % mewn Ysweiriant Gwladol yn costio £2.7m i'r Cyngor. Ac wrth i grant Llywodraeth Cymru o £3m at atgyweirio hewlydd ddod i ben bydd raid i'r bwlch ariannol - fel y bylchau yn yr hewl - gael ei lanw gan y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn croesawu'r setliad Grant Cynnal Refeniw o 9.2% gan Lywodraeth Cymru, ond mae hwn yn ymbarel sy'n gorfod gwarchod nifer o gostau digynsail - yn cynnwys, ar ôl Ebrill, taliadau Cyllid Caledi mewn perthynas â Cofid, sydd ar hyn o bryd yn costio £2.5m y mis.

Buasai'n well gennym rewi codiad y dreth gyngor, ond mae gwasanaethau megis Gofal Cymdeithasol eisioes dan y pwysau trymaf mewn cof.

Yng ngolau hyn, ac o ganlyniad i 12 mlynedd o ddiffyg cyllideb oherwydd polisi cyni Llywodraeth y D.U., byddai cadw'r codiad yn y dreth gyngor i 2.5% yn dipyn o gamp.

Ni fydd setliad terfynol y Grant Cynnal Refeniw yn cael ei gadarnhau tan Mawrth 2il - y diwrnod cyn bydd y Cyngor yn cwrdd i osod ei gyllideb.

COUNTY COUNCIL BUDGETS 2022/23:

Despite huge and unprecedented financial pressures, it's expected that the Council Tax increase in Carmarthenshire this year will be 2.5% – half the current rate of inflation. People are facing considerable hardship, so we're determined to keep the council tax increase to the very minimum, without having to make savage cuts to services. This is immensely difficult as the financial pressures faced by the council in a pandemic are unprecedented.

Inflation is at 5.4% and rising. Pay awards for council staff are currently budgeted at 4%. Fuel costs to heat schools, residential homes and other buildings, for refuse lorries etc, are likely to soar by 20%.

On top of this, the UK government's 1.25% point increase in National Insurance will cost the council an extra £2.7m. And as the Welsh Government's £3m grant towards repairing roads ceases, the gap – like the potholes – has to be filled by the council.

The Council welcomes the 9.2% Revenue Support Grant settlement by Welsh Government, but it's an umbrella which covers a host of unprecedented costs – including, after April, hardship fund payments relating to Covid, currently running at £2.5m a month.
We would have preferred a council tax rise freeze, but essential services like Social Care are already under the greatest pressure in our lifetime.
In view of all this, and following 12 years of underfunding due to the UK Government's austerity policy, keeping the council tax increase to 2.5% would be a considerable achievement.
The final Revenue Support Grant settlement won't come through until March 2 – a day before the County Council meets to set its budget.

CYNLLUN 10 TREF SIR GÂR:

Diben ein menter Deg Tref yw cefnogi adferiad economaidd a thwf trefi gwledig ledled Sir Gâr. Sefydlwyd y fenter fel ymateb uniongyrchol i'n Cynllun Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen sy'n nodi nifer o argymhellion allweddol i helpu i adfywio Sir Gaerfyrddin wledig. Rhan allweddol o'r rhaglen yw datblygu cynlluniau twf economaidd i yrru'r agenda ar gyfer newid yn ei blaen ar gyfer yr holl drefi perthnasol a'u cefnwlad ehangach: Cross Hands, Cwmaman, Cydweli, Talacharn, Llandeilo, Llanymddyfri, Llanybydder, Castellnewydd Emlyn, Sanclêr a Hendy-gwyn ar Daf.

Bydd gan bob cynllun ei gamau blaenoriaeth ei hun, yn ogystal â phrosiectau a nodwyd a fydd yn cefnogi adferiad economaidd a thwf pob tref wledig, a fydd yn cynnwys camau gweithredu i gefnogi'r canlynol: Adfer yn sgil Covid-19, Tyfu busnes, Cefn gwlad a threfi digidol SMART, Twristiaeth a'r economi ymwelwyr, ac Ailddefnyddio adeiladau a datblygu tir.
Rwy'n gweithio gyda grwp Sanclêr i ddatblygu rhaglen mentrau a fydd er lles ein hardal ac yn dod â rhagor o wasanaethau i dref Sanclêr.

CARMARTHENSHIRE TEN TOWNS INITIATIVE:

Our Ten Towns initiative is to support the economic recovery and growth of rural towns across the County. The initiative was established as a direct response to our Moving Rural Carmarthenshire Forward Plan, which sets out a number of key recommendations to support the regeneration of rural Carmarthenshire. A key part of the programme is the development of economic growth plans to drive forward an agenda for change for each of the respective towns and their wider hinterland:
Cross Hands, Cwmaman, Kidwelly, Laugharne, Llandeilo, Llandovery, Llanybydder, Newcastle Emlyn, St.Clears and Whitland.

Each plan will have their own priority actions, as well as identified projects that will support the economic recovery and growth of each rural town, which will include actions to support: Covid-19 recovery, Business growth, Smart digital towns and countryside, Tourism and visitor economy and Re-use of buildings and land development.
I am working with the St. Clears group to set a programme of initiatives which will benefit our area and bring more services to St. Clears town.

ETHOLIADAU LLEOL MAI 2022:

Ni fyddaf yn cyflwyno adroddiad yn nghyfarfod misol y cyngor cymuned ym mis Mawrth gan y byddwn, erbyn hynny, yng nghyfnod purdah, neu'r cyfnod cyfyngiadau cyn-etholiadol. Byddaf yn cynnig sessiwn gyswllt i gynghorwyr cymuned cyn y cyfnod hwnnw.

LOCAL ELECTIONS MAY 2022:

I will not be presenting a report in the community council monthly meeting in March as we will be in purdah, or the restricted pre-election period. I will be offering a community councillor surgery prior to this period.

HYFFORDDIANT CYNGHORWYR:

Bum ar hyfforddiant ar Gysylltedd Digidol. Bydd rhagor o gynlluniau i'w trafod yn dilyn yr etholiadau lleol a bydd projectau ariannu lleol ar gael os bydd gwirfoddolwyr yn fodlon creu timau i arwain yn y gymuned.

COUNCILLOR TRAINING:

I have participated in training on Digital Connectivity. Further plans will be available for discussion following the local elections and local funding projects will be available if volunteer teams are prepared to lead on these in the community.

YSTAFELL NEWYDDION Y SIR:

Ewch i Ystafell Newyddion Cyngor Sir Gâr am y newyddion diweddaraf yn ein hardal: https://newyddion.sirgar.llyw.cymru/

COUNTY NEWSROOM:

Please visit the Carmarthenshire County Council Newsroom for all the latest local news: https://newsroom.carmarthenshire.gov.wales/